Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
CYFARFOD BLYNYDDOL
MEHEFIN 2007

DYDDIAD	Nos Fercher, 20fed Mehefin, 2007
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd RHOSTRYFAN
AELODAU'N BRESENNOL	Tom Ellis, Nerys Evans, Gwilym V.Thomas, Neal Williams, Meurig Williams, Gwilym L.Williams, Elwyn Jones, Emrys Jones, Jason Hunt
HEFYD YN BRESENNOL	Cyng.Glyn Owen Bethan Williams, Clerc

1. **Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ar gyfer 2007/2008**
Etholwyd Tom Ellis fel Cadeirydd a Jason Hunt fel Is-Gadeirydd am y flwyddyn.

2. **Cyfethol aelod newydd ar gyfer ward Dinas**
Yn dilyn hysbyseb yn y wasg nodwyd fod Jane Eryl Jones, Ffrwd Cae Du, wedi dangos diddordeb mewn bod yn aelod. Fe'i chyfetholwyd ac fe fydd y clerc yn anfon llythyr o wahoddiad iddi ar gyfer y cyfarfod nesaf.

3. **Ymddiheuriadau**
Elin Evans, Huw Williams

4. **Croeso**

5. **Datgan Buddiant**
TE – mater cynllunio
GLW – tender torri gwair

6. **Cadarnhau cofnodion** cyfarfod diwethaf gynhaliwyd ar nos Fercher, Mai 16eg, 2007.

7. **Materion i'w trafod:**
   a) NW – wal wedi malu rhwng Ysgol Rhosgadfan a'r ciosg. Nododd MW fod Steven Jones, Cyngor Gwynedd eisoes yn ymwybodol ac wedi bod yn tynnu lluniau o'r safle. Clerc i gysylltu efo'r adran i geisio gael diweddariad.
   b) ElJ – llwybrau Cae Coch – wedi derbyn cwyn fod polyn wedi'i blygu a bellach braidd yn beryg. Wyn wedi trwsio'r ffens.
   c) EmJ – angen gofyn wrth Aled Evans Davies, Swyddog Tai Fforddiadwy Cyngor Gwynedd, sut y daeth polisi o sefydlu dim ond 25% o dai fforddiadwy mewn unrhyw ddatblygiad – copi o'r polisi wedi dod i law. EmJ wedi cael copi.

d) Nododd EE yn y cyfarfod diwethaf fod damweiniau wedi digwydd ger mynedfa Sain a gofyn am gael arwyddion arafu. Angen cysylltu efo'r Adran Briffyrdd.
e) GVT – cysgodfan Penffordd – angen tynnu rhywfaint o'r banc tu ôl i'r gysgodfan er mwyn gwella mynedfa. Wyn wedi gwneud y gwaith.
f) GVT – parcio yn Gwelfor a Tai Rhosgadfan. Clerc i anfon i'r Cyngor Sir yn gofyn wrthynt anfon llythyr at eu tenantiaid yn gofyn wrthynt barcio yn synhwyrol. Efallai y byddai'r tenantiaid yn gallu gwneud cais i gael safloedd parcio yn eu gerddi.
g) GVT – torri gwair cae chwarae Rhosgadfan. Clerc wedi cael gwybod gan HW fod contractor yn mynd i dorri'r gwair yn fuan. Clerc i ysgrifennu i'r pwyllgor cae chwarae i ofyn eto wrthynt geisio cadw'r gwair i lawr, a threfnu fod sawl toriad yn digwydd yn ystod y flwyddyn yn hytrach na un toriad fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.
h) Nododd y clerc fod Wyn wedi'i hysbysu fod bin y fynwent wedi'i ddwyn – clerc wedi trefnu fod un newydd yn ei le.
i) Cynllun Uwchgwyrfai – ymateb gan Elwyn Vaughan a Gwynfor Owen, Cadeirydd Cymad. Llythyrau yn cadarnhau y bydd y gwaith yn digwydd yn fuan.
j) Stepiau sy'n arwain i'r mynydd ger Ochr Muriau, Cofeb Kate Roberts ar Lôn Wen, arwyddion 30 yn Rhos Isaf, palmant yn Llanwnda – clerc wedi gofyn wrth Steffan Jones am ddiweddariad. GO wedi derbyn ymateb gan Steffan Jones yn nodi fod y Cyngor Sir yn derbyn cyfrifoldeb dros y stepiau ac y byddant yn cael eu trwsio; disgwyl i gael ymateb ynglyn â chyllid cyn mynd ymlaen efo clirio safle'r gofeb; dim datblygiad pellach ynglyn â chais am balmant yn Llanwnda.
k) Cwynion ynglyn â llygod mawr ger Tanrallt, Rhostryfan – wedi cael ymateb gan yr Adran Gynllunio, ond heb dderbyn ymateb gan Adran yr Amgylchedd. GO yn awgrymu y dylen sgrifennu at Moira Dewell yn Adran yr Amgylchedd.
l) MW – ceir yn parcio yn y safle bysiau yn Penffridd. Clerc a GO wedi rhoi gwybod i'r wardeiniaid parcio newydd.
m) MW – cwynion am blant yn yfed alcohol ar safle'r ysgol yn Rhosgadfan. Clerc i roi gwybod i'r heddwas Gwynfor Parry.
n) EmJ – angen eglurhâd o bolisi'r cyngor ynglyn â sut maent yn mynd ati i osod tai cyngor. Rhoddodd GO gopi o'r polisi i EmJ.
o) Llythyr gan Alun Ffred Jones yn dilyn ymweliad gan Harry Yorke, Ty Hen, Rhosgadfan. Nifer o gwynion wedi dod i law yn ymwneud â safle'r neuadd, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamerau CCTV. Clerc i anfon llythyr at Mr.Yorke yn egluro fod y cyngor cymuned wedi cymryd bob cam posib oddi fewn ei allu i wella'r problemau. Nododd GO hefyd fod cais cynllunio ar gyfer safle'r neuadd wedi dod i law beth amser yn ôl, ond doedd dim digon o fanylion arno, felly disgwyl i'r ymgeiswyr gyflwyno ail gais.
p) Llythyr gan Ganolfan Cae'r Gors i'n gwahodd i gyfarfod yno, am bris o £6 y tro. Hefyd derbynneb am ddwy gadair a sgrin tân a brynwyd gyda'r nawdd gan Gyngor Llanwnda. Penderfynwyd y byddem yn derbyn y cynnig ac yn cyfarfod yno bob tri mis.

Lein Bryngwyn – diweddariad gan Wyn Williams, Cyngor Gwynedd. Cadarnhawyd fod dwy lês yn mynd i gael eu paratoi, sef lês ar gyfer y lein o Brynwyn i Rhostryfan, ac o Rhostryfan i Tryfan Junction, oherwydd y problemau meddiant tir. ElJ yn nodi fod angen gwneud 'access agreement' rhwng George Morgan a'r Cyngor Sir, h.y. nid oes gan George Morgan unrhyw wrthwynebiad i'r llwybr gael ei ddefnyddio cyn belled a bod giât a ffens iawn yn cael eu gosod naill ochr, ond bod angen cytundeb iawn

8. **Derbyn Adroddiadau:**

9. **Is-bwyllgorau:**
Cyllid a gweinyddol – nos Fercher, Mai 30ain – cadarnhawyd fod y cofnodion yn gywir gan y Cadeirydd a'r Is-bwyllgor cyllid a gweinyddol. Mae'r cyfrifon bellach yn nwylo John D.Roberts ar gyfer eu harchwilio.

10. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	21,164.78
Cyfri Siec:	86.19
CYFANSWM	21,250.97
Cyflog/costau clerc –	386.57
Cyllid y Wlad	94.93
Wyn Williams	194.00
GWEDDILL	20,575.47

Tendr torri gwrychoedd. Anfonwyd gwahoddiad i bedwar contractiwr dendro am y gwaith, sef Arwel Owen, G.H.Jones, Gwilym L.Williams ac E.W.Williams. Derbyniwyd un pris am £300 gan Gwilym L.Williams. Derbyniwyd y pris a chadarnhawyd y bydd angen 2 doriad yn ystod yr haf – union ddyddiadau i'w penderfynu gan yr aelodau.

11. **Materion Cynllunio**
Llythyr mewn ymateb i geisiadau am wybodaeth ynglyn â datblygiadau heb gael caniatâd cynllunio yn Dolwar, Garej Dinas, Tanrallt a Bryn Rhug. Nodwyd fod perchnogion Dolwar a Garej Dinas wedi cysylltu efo'r adran a'u bod wedi dilyn y canllawiau. Fodd bynnag roedd yr aelodau'n teimlo fod y datlbygiadau angen sylw pellach gan ystyried eu maint, hy ydy'r maint yn cydymffurfio â rheolau'r Adran. Clerc i gysylltu'n ôl. Yr Adran yn ymchwilio ymhellach ynglyn â Tanrallt mewn cydweithrediad ag Adran yr Amgylchedd.

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
CO7A/0750/24/LL – newid disgrifiad Fron Derw, Llanwnda
CO7A/0428/24/LL – Ty'n Ffrwd, Rhostryfan – lleihau maint yr annedd.
CO7A/0361/24/LL – Bryn Llus, Rhostryfan – estyniad un llawr
CO7A/0458/24/LL – adeiladu byngalo a modurdy ar lain o dir ger 8 Glanrhyd, Dinas
Eisoes wedi'i ganiatau:
Llain o dir ger Bodawen – newid amod
Tyddyn Wisgin, Rhosgadfan – estyniad un llawr
Trem Arfon, Rhos Isaf - estyniadau

Nodwyd fod problemau wedi codi eto ynglyn â ffiniau'r datblygiad ger Bodawen. Mae'n ymddangos fod y datblygwr wedi hawlio darn o dir sy'n perthyn i'r rheilffordd. Mae'r cwmni rheilffordd a'r Adran Gynllunio yn ymwybodol o'r broblem. GO ym mynd i drafod ymhellach.

Gohebiaeth:

a) Is-bwyllgor Cymunrodd Elizabeth Hughes – gwahoddiad i aelodau.
b) Cyngor Cymuned Bontnewydd – gofyn wrth bawb anfon eu hawgrymiadau ar gyfer y ffordd osgoi at Arup, neu drwy law cyngor Bontnewydd. GO yn mynd i ddrafftio ymateb.
c) Fforwm Celfyddydau Gwynedd
d) Un Llais Cymru – Bwletin Arfon/Dwyfor a gwahoddiad i'r Cyfarfod Blynyddol ynghyd a hyfforddiant mewn cynllunio ar gyfer dau gynrychiolydd. TE, NE a BCW yn mynd i fynychu.
e) Rhaglen waith Cyfadran yr Amgylchedd
f) Swyddfa Archwilio Cymru – cywiriad
g) Cyfadran Adnoddau – holiadur yn dilyn cyfarfodydd rhwng y Cyngor Sir a'r Cynghorau Cymuned. Clerc i ymateb.
h) Grwp Cyswllt Lleol Safle Tirlenwi Cilgwyn – agenda a chofnodion
i) Cyfadran Amgylchedd – Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Gwynedd – drafft ymgynghorol a holiadur. Angen trefnu cyfarfod o is-bwyllgor llwybrau. Clerc i drefnu.

12.

j) Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr – cais am nawdd. I'w ystyried ym mis Hydref.
k) Heddlu – cyfarfod cyhoeddus – Blaenau Ffestiniog 19.07.07
l) Standards Board for England – cywiriad
m) Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhyw o fewn y GIG
n) CefnGwlad.org – help i grwpiau cymunedol
o) Pamffledi Côd Cefn Gwlad
p) Cylchgronnau

13. **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf**:
    - **a)** Nododd GVT fod cyfarfod wedi drefnu ar gyfer nos Lun, 25ain yn y Clwb yn Rhosgadfan am 7.30p.m. i drafod y datblygiadau yn y chwarel.
    - **b)** Mw – torri gwair oddi fewn i bentrefi Rhosgadfan a Rhos Isaf. Dim ond un waith y flwyddyn sydd ar y cynllun gwaith yn hytrach na tair gwaith. Clerc i ysgrifennu at Geraint Hughes, Adran Bwrdeistrefol i geisio gwella'r sefyllfa.
    - **c)** ElJ – nodi fod angen torri'r gwair a'r gwrychoedd ar hyd lein Bryngwyn o Bryn Meillion i fyny. Clerc i gysylltu efo Wyn.
    - **d)** EmJ yn nodi fod 'manhole' wedi torri ar y palmant wrth ymyl Hen Efail, Ffrwd Cae Du. Clerc i gysylltu a'r Adran.
    - **e)** EmJ yn gofyn tybed oes modd newid yr arwydd newydd yn Ffrwd Cae Du i nodi 'Araf/Slow' yn hytrach na arwydd 'tro'.

14. **Dyddiad cyfarfod nesaf** – Gorffennaf 18fed – i'w gadarnhau.

15. Daeth y cyfarfod i ben am 9p.m.